**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad 'Minnau hefyd' gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

**Rhagfyr 2019**

---

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i argymhellion yr adroddiad.

Mae'r pwyllgor yn cydnabod bod rhaglen Cyfuno wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers iddi gael ei chreu, ac rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i argymhellion yr adroddiad. Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru tuag at gyflawni'r argymhellion hynny.

**Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad ar raddfa fawr o raglen Cyfuno sy’n asesu’r amcanion gwreiddiol, y cyllid a’r gwerthusiad.**

**Ymateb: Dylai.**

Mae Amgueddfa Cymru, gyda chymorth Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, eisoes wedi cynnal nifer o adolygiadau o raglen Cyfuno:
https://llyw.cymru/adolygiad-or-rhaglen-grantiau-her-cyfuno;
https://llyw.cymru/ymchwil-mewn-i-gyfuno-creu-cyfleoedd-drwy-ddiwylliant;
https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-flwyddyn-beilot-y-rhaglen-ardaloedd-arloesi

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cychwyn ar y broses o gomisiynu adolygiad annibynnol pellach o raglen Cyfuno. Lle y bo'n bosibl, bydd hwn yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiadau blaenorol a'r data monitro presennol er mwyn sicrhau gwerth am arian.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni fydd angen cyllid newydd. Daw unrhyw gostau o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 2. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod holl aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru (ei sefydliadau a ariennir gan refeniw) yn gweithio gyda’r cymunedau gwahanol y maent yn eu gwasanaethu i gynllunio eu rhaglen weithgareddau.**

**Ymateb: Nid yw'r argymhelliad yn ymwneud â Llywodraeth Cymru.**

Mater i Gyngor Celfyddydau Cymru yw hwn.

Deallwn fod CCC yn cytuno â'r argymhelliad a bod sefydliadau o fewn Portffolio Celfyddydol CCC sydd eisoes yn gweithio'n agos gyda chymunedau gwahanol i gynllunio a chreu gwaith. Cydnabu CCC yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor y gallai'r portffolio o sefydliadau wneud mwy yn gyffredinol, ac mae CCC yn ymrwymedig i

weithio gyda nhw i ddatblygu'r dull gweithredu hwn.  Rydym yn disgwyl i CCC wneud hyn wrth iddo gynnal ei Adolygiad Buddsoddi ar gyfer 2020.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid rhaglen Cyfuno i roi sicrwydd deiliadaeth i Gydgysylltwyr Cyfuno.**

**Ymateb: Dylai.**

Cytunwyd ar gyllid pob un o'r cyfranogwyr ar gyfer y cyfnod penodol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, fel rhan o'u ceisiadau i fod yn rhan o raglen Cyfuno. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu strwythur newydd ar gyfer y rhaglen a bydd yn ystyried hyd a thelerau'r cyllid fel rhan o'r broses o ddatblygu'r rhaglen. Trefnir sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror 2020.

Fodd bynnag, yn yr un modd ag unrhyw gyllid gan y Llywodraeth, mae'r cyllid yn dibynnu ar y cylch cyllidebol a dyraniadau'r cyllid perthnasol.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae cyllid y rhaglen yn dibynnu ar ddyraniadau cyllidebol ac ystyriaeth yn erbyn blaenoriaethau eraill.

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i adolygu cynnydd yn flynyddol yn erbyn ei chanlyniadau yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023 o ran ehangu mynediad at y celfyddydau. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor.**

**Ymateb:** Mater i Gyngor Celfyddydau Cymru yw hwn yn bennaf.

Deallwn fod CCC yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Mae CCC yn cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru i drafod ei pherfformiad, gan gynnwys ehangu mynediad at y celfyddydau a chyfranogiad ynddynt, a darparwyd diweddariad yn 2018 a 2019 fel rhan o ymateb Craffu Cyllidebol Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Byddwn yn gofyn i CCC hefyd adrodd yn ôl yn fwy cynhwysfawr ar gynnydd bob blwyddyn i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu a Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim i Lywodraeth Cymru

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff celfyddydau a diwylliannol sy'n cael cyllid cyhoeddus nodi eu hamcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn eu cynlluniau strategol. Dylai'r rhai sy'n cael cyllid hefyd nodi sut y maent yn bwriadu cydgynllunio gweithgareddau a chynnwys creadigol gyda'r cynulleidfaoedd targed hyn.**

**Ymateb: Dylai.**

Bydd Llywodraeth Cymru, drwy CCC, yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff celfyddydau a diwylliannol sy'n cael cyllid gan CCC nodi eu hamcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn eu cynlluniau strategol. Ymysg y cyrff cyhoeddus y mae Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Dylai'r rhai sy'n cael cyllid hefyd nodi sut y maent yn bwriadu cydgynllunio gweithgareddau a chynnwys creadigol â'r cynulleidfaoedd targed hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyrff perthnasol eraill sy'n cael arian cyhoeddus, yn enwedig Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn cynnwys amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn eu cynlluniau strategol, a bydd yn mynd ati i annog cyrff celfyddydau a diwylliannol cenedlaethol i gydgynllunio gweithgareddau a chynnwys creadigol. Bydd yn ofynnol i brosiectau cyfalaf mawr newydd, megis yr oriel celf gyfoes a'r amgueddfa bêl-droed, gynnwys amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn eu cynlluniau datblygu.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 6. Dylid ystyried cynyddu mynediad i'r lleoliadau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i'r rhai sydd mewn tlodi neu sydd mewn perygl o allgáu cymdeithasol fel un o amcanion Trafnidiaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau i Trafnidiaeth Cymru ymrwymo i bartneriaethau â sefydliadau diwylliannol ar gyfer digwyddiadau a/neu leoliadau penodol i drefnu bod mynediad i'w gweithgareddau am ddim neu â chymhorthdal. Dylid cyflwyno adroddiad ar y cynlluniau peilot hyn i'r Pwyllgor.**

**Ymateb: Dylai, mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynlluniau peilot o dan raglen Cyfuno yn 2020/21. Mae hyn yn cynnwys ystyried opsiynau, ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, i sefydlu partneriaethau â sefydliadau diwylliannol ar gyfer digwyddiadau a/neu leoliadau penodol i drefnu bod mynediad i'w gweithgareddau am ddim neu â chymhorthdal mewn modd tebyg i'r rhaglen lwyddiannus ar y cyd â Cadw.

Cytunodd Cadw ar bartneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru i gynnig dau docyn mynediad am bris un tan fis Rhagfyr 2020. Bydd unrhyw ymwelydd sy'n dangos tocyn dilys gan Drafnidiaeth Cymru ar gyfer y llwybr penodol yn cael dau docyn mynediad am bris un i safleoedd Cadw. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys hysbysebion Cadw ar bosteri mewn gorsafoedd trenau ledled Cymru a'r un cynnig ar draws sianeli a gwefannau cymdeithasol. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn hysbysebu'r cynnig ar sgriniau digidol Cadw ar saith safle.

**Goblygiadau Ariannol** – Byddwn yn penderfynu ar y cyllid a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer rhaglen Cyfuno i alluogi cyfranogwyr i hawlio costau cysylltiedig megis trafnidiaeth.**

**Ymateb: Dylai.**

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i ddarparu cyllid i raglen Cyfuno i alluogi cyfranogwyr i hawlio costau cysylltiedig megis trafnidiaeth ac mae'n bwriadu treialu cynlluniau peilot ar raddfa fach yn ystod 2020/21, yn amodol ar gyllid.

**Goblygiadau Ariannol** – Rydym yn penderfynu ar y cyllid a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor ar y cynigion ar gyfer datblygu set ddata ansoddol ar raglen Cyfuno a'r amserlen i'w hymgorffori yn y fethodoleg werthuso.**

**Ymateb: Dylai**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynigion i ddatblygu set ddata ansoddol ar y rhaglen Cyfuno ac amserlen i'w hymgorffori yn y fethodoleg werthuso. Byddwn yn comisiynu adolygiad annibynnol a fydd yn cynnwys dadansoddiad o'r data ansoddol sydd eisoes wedi cael eu casglu gan ardaloedd Cyfuno yn ogystal â chasglu data ansoddol newydd ar ffurf astudiaethau achos.

**Goblygiadau Ariannol** – Rydym yn penderfynu ar y cyllid a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r argymhelliad hwn.